

## Cais am Drwydded Gweithredwyr Cerbyd Hurio Preifat

### **NODIADAU CANLLAW AR GYFER TRWYDDED GWEITHREDWYR HURIO PREIFAT**

1. Gofynnir i chi ddarllen yr Amodau Trwydded Gweithredwyr Hurio Preifat sy'n amgaeëdig yn ofalus.
2. Gellir cyflwyno'r cais naill ai yn un o Ganolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor yn:

- Yr Hwb, 41 Stryd Y Cei, Rhydaman, SA18 3BS
- 3 Heol Spilman, Caerfyrddin
- Yr Hwb, 36 Stryd Stepney, Llanelli, SA15 3TR

Neu drwy'r post:

Yr Adran Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

**Rhaid anfon y ffi briodol ar gyfer y drwydded gyda'r cais:**

**Trwydded 1 Flwyddyn £145.00 ac yna £138.00 wrth adnewyddu bob blwyddyn,**

**Neu**

**Trwydded 5 Mlynedd £639.00 ac yna £631.00 wrth adnewyddu bob 5 mlynedd**

**(DYLID CROESI POB SIEC A'I GWNEUD YN DALADWY I 'CYNGOR SIR CAERFYRDDIN')**

**Sylwch** – Os nad ydych yn yrrwr trwyddedig gydag awdurdod hwn ar hyn o bryd, bydd eich hawl i weithio yn y DU yn cael ei gwirio fel rhan o'ch cais am drwydded, gallai hyn gynnwys yr awdurdod trwyddedu yn gwirio eich statws mewnfudo gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'n rhaid i chi felly ddarparu dogfen neu gyfuniad o ddogfennau a nodir sy'n addas ar gyfer y gwiriad hwn. Mae rhestr o'r dogfennau wedi'i hatodi yn Atodiad A. Mae'n rhaid i chi ddod â'r ddogfen/dogfennau gwreiddiol, megis pasbort neu hawlen breswyllo fiometrïg fel y nodwyd yn Atodiad A, er mwyn galluogi cynnal y gwiriad. Bydd y ddogfen/dogfennau'n cael eu copïo a'r copïau'n cael eu cadw gan yr awdurdod trwyddedu. Bydd y ddogfen wreiddiol yn cael ei hanfon yn ôl atoch.

Os oes cyfyngiadau ar y cyfnod amser y gallwch weithio yn y DU, ni fydd eich trwydded yn cael ei rhoi am gyfnod hirach na hwn. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd rhaid ail-adrodd y gwiriad bob tro y byddwch yn adnewyddu neu'n ymestyn eich trwydded. Yn ystod y cyfnod hwn, os byddwch yn cael eich gwahardd rhag cadw trwydded oherwydd nad ydych wedi cydymffurfio â chyfreithiau mewnfudo'r DU, bydd eich trwydded yn darfod a bydd rhaid i chi ddychwelyd y drwydded i'r awdurdod trwyddedu, bydd methu â gwneud hynny yn drosedd.

## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

### Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II

### Cais am Drwydded Gweithredwyr Hurio Preifat

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG

Dyddiad Derbyn y Cais:			
Enw ymgynghorydd CSC		Lleoliad CSC	
Manylion Talu	Rhif derbynneb:	Swm a dalwyd £	Arian Parod/Siec/Cerdyn

**D.S. Os bydd unrhyw berson, boed hynny trwy wybod iddo neu trwy esgeulustod, yn gwneud datganiad ffug neu'n gadael allan unrhyw fanylion o bwys wrth roi'r wybodaeth ganlynol, bydd yn euog o drosedd o dan Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II.**

**Nodwch isod Hyd y Drwydded sydd ei angen arnoch**

**Trwydded 1 Flwyddyn £145.00 ac yna £138.00 wrth adnewyddu bob blwyddyn**

neu

**Trwydded 5 Mlynedd £639.00 ac yna £631.00 wrth adnewyddu bob 5 mlynedd**

**DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU OS GWELWCH YN DDA**

### YMGEISYDD

a) Enw Llawn:

.....

b) Cyfeiriad Parhaol:.....

.....

c) Dyddiad Geni: .....

d) E-bost:.....

e) Rhif ffôn (cartref).....

Symudol.....

f) Enw'r cwmni: .....

g) Nifer y cerbydau yr ydych neu y bwriadwch eu gweithredu. ....

h) Cyfeiriad(au) lle bwriedir cynnal busnes mewn perthynas â Cherbydau Hurio

Preifat: .....

.....

- i) Ai chi yw unig berchennog a gweithredydd y cerbyd? **le/Na** (dileer fel y bo'n briodol)

Os **Na**, nodwch enw(au) a chyfeiriad(au) pob perchennog, neu ran-berchennog sy'n ymwneud â chadw, defnyddio neu logi eich cerbyd.

Enw(au).....

Cyfeiriad(au).....

Dyddiad Geni.....

Rhif ffôn.....

- j) A ydych chi, neu eich Partner/Cwmni/Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd, wedi gwneud cais am drwydded gweithredydd o'r blaen? **Ydw / Nac ydw** (dileer fel y bo'n briodol)

Os '**Ydw**'

i) Pwy wnaeth y cais.....

ii) I ba Awdurdod.....

iii) A ganiatawyd y drwydded? **Do / Naddo**

- k) A ydych chi, eich partner neu unrhyw Gwmni yr ydych chi neu yr oeddech yn Gyfarwyddwr neu'n Ysgrifennydd arno, erioed wedi eich cael yn euog o unrhyw drosedd? **Ydw / Nac ydw**

Neu

A oes achos yn cael ei ddwyn yn eich erbyn chi, eich gyrrwr neu unrhyw berson arall sydd â buddiannau yn y Cwmni a'r broses o weithredu'r cerbyd?

**Oes / Nac oes**

Os '**Oes**', rhwch y manylion isod.

Dyddiad	Trosedd	Llys	Dedfryd neu Orchymyn y Llys
---------	---------	------	-----------------------------------

**Rwyf yn datgan fod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y cais hwn yn gwbl gywir. Os caniateir i mi gael trwydded, rwyf hefyd yn datgan y byddaf yn cydymffurfio â'r Amodau a'r Nodiadau Cyfarwyddyd sy'n rhestru'r darpariaethau statudol.**

Llofnod.....

Dyddiad.....

**Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.**

**I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.**

### **Hysbysiadau Preifatrwydd**

Mae sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu ein gwasanaethau a chadw hyder y cyhoedd.

Ystyr data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy ddefnyddio'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn drwyddo draw ac maent yn gyfystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data.

Felly, mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i lunio i esbonio mor glir â phosibl beth rydym yn ei wneud â'ch data personol. I weld yr hysbysiad preifatrwydd trwyddedu, ewch i:

[www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/](http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/)

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.